

# **Cyngor Cymuned Llanystumdwy**

**Rhaglen waith y Cyngor-nos Iau, 3ydd o Hydref, 2019 yn brydlon am 7:00 y.h. yn Ffestri Capel Pencaenewydd.**

1. Ymddiheuriadau.
2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 5ed o Fedi 2019.
3. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS mis Medi 2019 gan y Cadeirydd.
4. Materion yn codi o'r cofnodion.

Ar y rhaglen.

5. Datgan buddiant personol.
6. Cyngor Gwynedd.
7. **Cyngor Gwynedd - ceisiadau cynllunio yn y gymuned**
  - a) Cais Rhif: C19/0859/41/LL - **Ystumcegid Isaf, Cricieth - estyniad unllawr.**
  - b) Cais Rhif: C19/0887/41/LL - **Lluest, Rhoslan, Cricieth** - dymchwel estyniad presennol a chodi estyniadau newydd.
  - c) Cais Rhif: C19/0897/41/LL - **Mur Crusto, Llanybi** - Tynnu amodau 3 a 4 o ganiatad CO2D/0353/41/LL sy'n ymwneud a defnydd gwyliau.

8. **Diogelu hen enwau lleoedd Cymraeg** - Y Clerc wedi anfon llythyr at Gwenllian Mair Williams, Ymgyngorydd Iaith, Cyngor Gwynedd, i wneud ymholiadau i weld os oes trefn i'w ddilyn er mwyn cael yr hawl i newid enw ar dŷ. Gobeithio y bydd ateb wedi cyrraedd erbyn y noson.

9. **Cynhadledd Cyswllt Rheilffordd y Cambrian 08.11.19, Canolfan Porthmadog, 11:15 y.b.** Angen anfon unrhyw faterion sydd angen ei trafod cyn 28.10.19, bydd y ffurflen gan y Clerc ar y noson.

10. **Cais i gefnogi Canolfan Deiagnosis Cancr yng Ngwynedd**

-gan Mabon ap Gwynfor, (Ymgeisydd Plaid Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru) Dywedodd, "Yn 2018 roedd dros 28% o farwolaethau yng Ngwynedd o ganlyniad i ganser. Yn 2016 galwodd Plaid Cymru am ganolfannau diagnosis sydyn er mwyn mynd i'r afael a'r rhestrau aros hirfaith a sicrhau triniaeth chwim i gleifion. Fe gytunodd Llywodraeth Cymru i dreialu canolfannau o'r fath, ac mae canolfannau yn ardaloedd Cwm Taf ac Abertawe wedi profi'n llwyddiannus."

Eglurodd fod ymchwil yn dangos fod y canolfannau deiagnosis yma wedi lleihau amser tan ddiagnosis o 84 diwrnod i 6 diwrnod. Felly byddai o fantais petai Llywodraeth Cymru yn

agor canolfan ddeagnosis o'r fath yma yng Ngwynedd. **Y Clerc wedi anfon y manylion at y Cynghorwyr eisioes, er mwyn ei galluogi i ddagtan cefnogaeth.**

### **11. Cynnal a chryfhau Bioamrywiaeth o fewn y gymuned**

Derbyniwyd ebost gan Un Llais Cymru 06.09.19, yn dweud ei bod ofynnol i awdurdodau cyhoeddus (gan gynnwys Cynghorau Cymuned & Thref) o dan Ddeddf yr Amgylchedd Cymru 2016, Adran 6, i baratoi a chyhoeddi cynllun yn amlinellu'r hyn y bwriadant ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd i Gynnal a Chryfhau Bioamrywiaeth o fewn eu meysydd gwaith presennol.

Dylid cyhoeddi adroddiad cyn diwedd 2019, a phob 3 mlynedd wedyn, yn dangos beth mae'r awdurdod cyhoeddus wedi ei wneud i gydymffurfio â'r dyletswydd i gynnal a chryfhau bioamrywiaeth o fewn neu meysydd gwaith presennol.

Derbyniwyd bwletin newyddion arall gan Un Llais Cymru wedyn ar 19.09.19 yn dweud "rhoddodd Llywodraeth Cymru wybod i Un Llais Cymru y cyhoeddir Canllawiau maes yn y dyfodol agos". **Angen trafod**

12. **Pwyllgor Ardal Arfon / Dwyfor Un Llais Cymru** a gynhaliwyd ar y 25ain Medi 2019, yn Siambr y Cyngor, Cyngor Tref Pwllheli -bu'r Cynghorydd Trefor Jones a'r Clerc yno.

### **13. Materion yn y gymuned.**

#### **Llanarmon**

#### **Llanystumdwy**

**Gwasanaeth bws drwy Llanystumdwy** - wedi cael trethdalwyr yn cwyno am wasanaeth bysiau sydd yn rhedeg trwy Lanystumdwy cyn gwyliau'r haf. Ar fwy nag un achlysur nid oedd y bws yn troi fyny o gwbl. Y Clerc wedi cysylltu efo'r Cydlynnydd Cludiant, Cyngor Gwynedd i holi be ydi'r rheswm am hyn, ac mae wedi gofyn am restr o enghreifftiau penodol er mwyn ymchwilio i mewn i'r mater. **Y Clerc yn gobeithio adrodd yn nol i'r Cydlynnydd Cludiant ar ol derbyn sylwadau.**

#### **Rhoslan /Ynys**

Gordyfiant o goed y ddwy ochor i'r ffordd o Rhoslan i Llanystumdwy, (lon Gwynfryn)- derbyniwyd ymholiad gan aelod o'r cyhoedd, sef bod "*tyfiant wedi mynd allan o reolaeth sydd yn gwneud yn anodd i ddau gerbyd mawr basio eu gilydd. Mater o amser cyn y bydd damwain yn digwydd ar y lon*". - **Y Clerc wedi cysylltu hefo Adran Prifffyrdd, ond heb gael ateb eto.**

#### **Chwilog**

#### **Llwybr troed o Chwilog i Afonwen**

Clerc wedi derbyn ymateb gan Mr Dylan Jones, Rheolwr Uned Traffig, Cyngor Gwynedd, yn dweud ei fod yn atodi map o gynllun atodol,

*"sy'n dangos y bwriad o osod llwybr rhwng Chwilog hyd at y A497 (heibio Afonwen).*

*Croesawn unrhyw sylwadau sydd gennych am y cynllun hon.*

*Fel sydd wedi ei nodi yn gynt, nad oes unrhyw arian ar gyfer ei adeiladu ar hyn o bryd, fodd bynnag, pan fyddwn yn ychwanegu ardal Chwilog ar ein mapiau Teithio Llesol yn 2020, fydd hyn yn agor allan fwy o gyfleoedd yw datblygu'n bellach yn y dyfodol".*

**Y Clerc wedi cysylltu â Mr Dylan Jones, i holi beth oedd y "mapiau Teithio Llesol 2020", ac mae wedi anfon 'linc' o'r ddeddfwriaeth drwy ebost. Y Clerc wedi edrych ar wefan Cyngor Gwynedd, ac mae'n dweud:-**

*"Teithio Llesol. Mae'r Cyngor wedi mynd ati i wella llwybrau a chyfleusterau cerddwyr a beicwyr Gwynedd gan ystyried beth mae nhw angen. Rydym wedi llunio mapiau o'r llwybrau y gall bobl Gwynedd eu defnyddio rhan ac hefyd o'r llwybrau fydd ar gael yn y*

dyfodol. Mae hefyd yn dweud mai 24 o Fedi 2020 fydd y dyddiad nesaf i ailgyflwyno'r map o'r llwybrau presennol a'r map o'r rhwydwaith integredig i Lywodraeth Cymru".

**Y Clerc am drefnu i anfon llythyr i ddatgan ein pryderon am y lon fel ag y mae ar hyn o bryd (bydd copi ar gael ar y noson), i ddangos ein bod yn gefnogol i'r cynllun. Mae nifer fawr o enwau wedi llofnodi'r papurau cefnogi, dros 300 o enwau ac fe drefnir i'w trosglwyddo i Mr Dylan Jones, i ddangos faint o alw sydd am y llwybr, ar ol y cyfarfod ddechrau mis Hydref.**

### **Pencaenewydd/Sardis**

#### **Llangybi**

14. **Cae chwarae, Llangybi** – wedi derbyn Adroddiad Blynyddol gan “Fields in Trust” ar 03.09.19, yn cadarnhau fod yr offer chwarae yn gymwys efo rheolau diogelwch. Mae yn dangos lluniau o'r gwahanol offer, ac yn rhoi sylwadau os oes angen gwneud unrhywbeth i ddiogelu'r lle. Clerc wedi anfon copi o'r adroddiad at y cynghorwyr ar 03.09.19. **Angen trafod ar y noson**

#### **15. Materion Ariannol**

16. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol. Hefyd cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud, ac y rhagwelir sydd angen ei wneud, drwy ffurf rhestr 'excel'. Angen i'r Cadeirydd lofnodi'r ddogfen, fydd yn cael ei diweddarau'n fisol.

17. Llochesi bws - glanhau

18. **Hysbysfwrdd** – wedi derbyn yr ymatebion isod o'r 4 pentref:-

Capel Pencaenewydd – maent wedi trafod ac yn gobeithio ei osod wrth y Capel, ac am holi saer lleol i gael pris, a gadael i'r Clerc wybod.

Pwyllgor Neuadd Chwilog – maent wedi trafod y mater yn ei pwyllgor blynyddol ac wedi cadarnhau ei bod yn hapus i ni osod hysbysfwrdd tebyg i'r un sydd yno'n barod, yr ochr arall i'r ffenest ar yr un wal.

Pwyllgor Neuadd Llanystumdwy- heb dderbyn ymateb eto.

Rhoslan, y Clerc wedi siarad hefo Mr John Pritchard o'r pentref, ac mae am holi saer lleol i gael pris i wneud hysbysfwrdd i'w osod ar y safle bws, ac am adael i'r Clerc wybod.

19. **Archwiliad Ariannol Allannol** gan gwmni BDO – y Clerc wedi anfon y sylwadau isod atynt ar 15.09.19, ac wedi derbyn ateb ganddynt ar 28.09.19.

Beth yw'r pwynt sydd heb ei ddatrys?	Beth sydd ei angen i ddatrys y mater?	Pam mae hyn yn angenrheidiol?
Nid yw'r dyddiad a chyfeirnod y cofnodion wedi eu darparu ar y datganiad llywodraethu blynyddol.	Mae angen i chi ddarparu'r cofnodion o'r cyfarfod lle cafodd y ffurflen flynyddol ei chymeradwyo.	Mae angen hyn er mwyn sicrhau bod y ffurflen flynyddol wedi cael ei chymeradwyo'n gywir. <i>Mae'r ffurflen flynyddol wedi cael ei chymeradwyo yn ein cyfarfod blynyddol ar 02.05.2019. Pwynt 15. Maent i'w gweld ar ein gwefan, ac rwyf wedi atodi copi i chi hefo'r ebost yma.</i>

<p>Mae'r blwch arian parod a buddsoddiadau tymor byr (blwch 9) wedi cael ei adael yn wag ar gyfer y flwyddyn flaenorol a'r flwyddyn gyfredol. Ar gyfer y flwyddyn flaenorol roedd gennym ffigur o £24,730 ar ein cofnodion ac yn ôl cysoniad y banc y ffigur ar gyfer eleni yw £19,655.</p>	<p>Mae angen i chi gadarnhau a yw'r ffigurau yma'n gywir.</p>	<p>Mae angen hyn er mwyn sicrhau bod y ffigurau yn y datganiadau cyfrifo yn gywir.  <i>Mae'n ddrwg gen i am hyn, fe ddylai blwch 9 ddangos:-</i>  £24,730 am 31.03.18 a  £19,655 am 31.03.19.  <b>**WEDI RHOI'R DDAU FFIGWR YMA YN Y BLYCHAU PERTHNASOL YN Y FFURFLEN INCWM A GWARIANT BLYNYDDOL AC ANGEN I GADEIRYDD Y CYFARFOD EI LLOFNODI A'I CYMERDWYO AR Y NOSON**Y CLERC YN GALLU EI ANFON YN NOL I'R BDO WEDYN*****</b></p>
<p>Nodwn fod costau staff wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn.</p>	<p>Mae angen i chi ddarparu'r cofnodion ar gyfer y cyfarfod lle cafodd y cynnydd yng nghyflog y staff ei gymeradwyo.</p>	<p>Mae angen hyn er mwyn sicrhau bod hyn wedi cael ei gymeradwyo'n gywir.  <i>Fe gafodd y costau staff ei cynyddu yn y Pwyllgor Amodau Gwaith a gynhaliwyd 08.05.18(3b), sef i godi'r oriau gwaith o 30 i 35 awr y mis. Gweler atodiad uchod.</i></p>
<p>Nodaf eich bod yn cyfeirio at bwyllgorau yn y llythyr a ddarparwyd gennych ond doeddech chi ddim yn siŵr beth oedd 'cylch gorchwyl' yn ei feddwl. Y cylch gorchwyl yw'r polisiau ysgrifenedig sy'n rhoi manylion cyfrifoldebau a phwerau dirprwyedig y pwyllgorau.</p>	<p>Mae angen i chi ddarparu rhestr o'r holl bwyllgorau sydd gan y cyngor yn ogystal â'r cylch gorchwyl ar gyfer pob pwyllgor.</p>	<p>Mae angen hyn er mwyn sicrhau bod y pwyllgorau'n dilyn y rheoliadau priodol.  <u><i>Pwyllgor Amodau Gwaith</i></u> - ar gyfer penodi pethau fel Clerc newydd/newid cyflog.  Mae 7 cynghorydd ar y pwyllgor.  <u><i>Pwyllgor Safle'r We</i></u> - ar gyfer gwneud unrhyw newidiadau i'r wefan  Mae 4 cynghorydd ar y pwyllgor.  <u><i>Pwyllgor Cynllun Busnes</i></u> - ar gyfer wneud penderfyniadau ynglyn a materion ariannol/rheoli gwariant/penodi praesept, cadw golwg ar wariant.  Mae 5 cynghorydd ar y pwyllgor.  <u><i>Pwyllgor Rheolau Sefydlog a Pholisiau ac Amodau Gwaith</i></u> - ar gyfer adnewyddu polisi o unrhyw fath fel bo angen.  Mae 4 cynghorydd ar y pwyllgor yma.  Mae yna raglen a chofnodion yn cael ei cynnal ar gyfer pob pwyllgor a drefnir.  Gellir gweld pwynt 1-9 o'r Rheoliadau Sefydlog sy'n son am drefn ein cyfarfodydd ar ein gwefan.</p>

		<i>Ni allaf weld fod unrhyw fanylion pellach ar gael, ond gallaf drefnu i'w drafod yn ein cyfarfod nesaf os y dymunwch.</i>
Mae'r gorchmynion sefydlog wedi cael eu darparu ond nid yw'r rheoliadau ariannol wedi cael eu darparu.	Mae angen i chi gadarnhau a yw'r cyngor wedi mabwysiadau rheoliadau ariannol ac anfon copi o hyn atom ni.	Mae angen hyn er mwyn sicrhau bod y cyngor yn dilyn y rheoliadau priodol. <i>Mae ein rheolau ariannol wedi cael ei rhoi o fewn ein gorchmynion sefydlog. Mae rhain ar ein gwefan – gweler pwynt 29 – 33. Rwyf wedi codi hyn yn ein cyfarfod diwethaf ar 05.09.19, a penderfynwyd fod angen darparu rheoliadau ariannol ar wahân, i'w dilyn a'i gosod ar ein gwefan. Mae hyn yn mynd i gael ei wneud yn ystod y mis yma, ac yn mynd i gael ei trafod a'i cymeradwyo yn ein cyfarfod ddechrau Hydref 2019. Byddant wedyn yn cael ei rhoi ar ein gwefan.</i>
Jones yw cyfenw'r archwilydd mewnol ac mae hyn yr un peth â rhai o'r cynghorwyr.	Dwi'n sylweddoli fod hwn yn enw cyffredin, ond mae angen i chi gadarnhau nad yw'r archwilydd mewnol yn perthyn i unrhyw un o'r cynghorwyr.	Mae angen hyn er mwyn sicrhau bod yr archwilydd mewnol yn annibynnol. <i>Ms Luned Fon Jones yw'r archwilydd mewnol, sydd yn Rheolwr Archwilio Uned Archwilio Mewnol, Cyllid, Cyngor Gwynedd, Caernarfon. Nid yw yn perthyn i unrhyw un o'r cynghorwyr.</i>

20. Materion yn codi yn yr adroddiad gan y BDO, dyddiedig 26.09.19, ac a dderbyniwyd gan y Clerc 28.09.19.

a) £24,730 am 31.03.18 a £19,655 am 31.03.19, yn bocs rhif 9. *Y Clerc wedi rhoi'r ddau ffigur yma yn y blychau perthnasol yn y ffurflen incwm a gwariant blynyddol 2018/19, ac angen i Gadeirydd y cyfarfod ei llofnodi a'i cymeradwyo ar y noson. Bydd y Clerc yn gallu ei anfon yn nol at y BDO wedyn cyn 11.10.19.*

b) **Y broses gyllidebu** – “er bod y praesept wedi'i osod erbyn y dyddiad dyledus ni wnaeth y cyngor baratoi cyllideb ddigonol i gefnogi a darparu tystiolaeth ar gyfer y cais am braesept. Rhaid i'r Cyngor sicrhau yn y dyfodol bod cyllideb ddigonol yn cael ei pharatoi i gefnogi ei broses gwneud penderfyniadau ac i helpu'r rheolaeth ariannol yn ystod y flwyddyn ariannol”. Angen adolygu'r gyllideb yn rheolaidd a'i fod yn cael ei gofnodi. *Bydd hyn yn cael ei wneud yn fwy manwl o hyn ymlaen.*

c) **Rheoliadau Ariannol** - dywedwyd fod angen Polisi Rheolau Ariannol arwahan i'r Rheolau Sefydlog. Y Clerc am gysylltu hefo Un Llais Cymru cyn y cyfarfod, fel y mae'r BDO wedi awgrymu, er mwyn iddynt ddarparu'r model mwyaf diweddar o'r rheoliadau ariannol i ni. Bydd rhain wedyn yn ymgorffori'r newidiadau gafodd eu cyflwyno gan Reoliadau Ariannol ac Archwilio Cymru 2014. Gall y Cyngor wedyn eu hadolygu, eu diwygio os oes

angen, a'u mabwysiadu'n ffurfiol. Rhaid cofnodi'r mabwysiadu gan nodi'r cyfeirnod cofnodion a'r dyddiad ar y Rheoliadau Ariannol i gyfeirio atynt yn y dyfodol. **Angen trefnu dyddiad ag amser i'r Pwyllgor Rheolau Sefydlog a Pholisi gyfarfod i wneud y gwaith (angen gwneud cyn gynted a phosibl ac o leiaf cyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol).**

ch) **Cylch gorchwyl** - oherwydd fod gan y Cyngor bwyllgorau eraill dylid sefydlu cylch gorchwyl yn cynnwys unrhyw ddirprwyo awdurdod ar gyfer unrhyw bwyllgor arall (cyn gynted â phosibl neu o leiaf cyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol). Gellir cael arweiniad gan Un Llais Cymru.

21. Clerc wedi mynychu'r ddau gwrs isod, a oedd yn cael ei cynnal yn yr Institiwt, Caernarfon, gan Un Llais Cymru. Mae £20.00 o fwrsari ar gyfer bob cwrs wedi cael ei dderbyn yn nghyfrif banc y Cyngor gan yr SLCC yn ystod mis Medi, ac maent wedi anfon dau anfoneb am £40.00 yr un i gael ei dalu.

04.09.19	Modiwl 9 - Cod Ymddygiad
19.09.19	Modiwl 4 - Dealltwriaeth o'r Gyfraith

22. Anfonebau angen eu talu:- drwy BACS.

Enw	Rheswm	Pris £	TAW £	Cyfanswm £	Taliad BACS
Un Llais Cymru	Cwrs Modiwl 4, Dealltwriaeth o'r gyfraith	40.00	0.00	40.00 (anfoneb rhif 5092)	40.00
Un Llais Cymru	Cwrs Modiwl 9, Cod Ymddygiad	40.00	0.00	40.00 (anfoneb rhif 5066)	40.00

Cyflog mis Medi 2019 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM:-

Enw/Rheswm	Swm £	Cyfanswm Taliad net £	Taliad siec rhif:-
Cyflog sylfaenol y Clerc, Medi 2019 35 awr x £10.37 =	362.95-llai treth £72.60	<b><u>290.35</u></b>	101137
Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Medi 2019	362.95 x 20% = llai treth £72.60	<b><u>72.60</u></b>	101138
Costau'r Clerc Medi 2019	48.40	<b><u>48.40</u></b>	101136

